# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 6) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 a hynny drwy amnewid darpariaethau Rhan III o'r Gorchymyn hwnnw sy'n pennu'r cyfyngiadau sy'n gymwys mewn ardaloedd heintiedig.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

Deellir bod darpariaeth debyg wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Testun uniaith**

Ni chafodd y Gorchymyn ei gynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r mater hwn wedi'i godi o'r blaen gyda'r gweinidog Cynulliad priodol ac yr ydym yn dal yn disgwyl am ymateb.

**Atodlen 1 – erthygl 27, y pennawd**

Dylai 'in infected area' ddarllen 'in an infected area'.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001